Ombudsman
Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf: PT/SMH Gofynnwch am: Peter Tyndall

Eich cyf: 01656 641150

Dyddiad: 22 Chwefror 2013

Ms Jocelyn Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Amcangyfrif Atodol**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â Rheol Sefydlog 20.36.

Yn fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2013/14, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fe wneuthum gynnwys darpariaeth mewn perthynas â phensiynau. Oherwydd y ffordd y mae'n rhaid i hyn gael ei adrodd gan Lywodraeth Cymru mae'n ymddangos yn yr Amcangyfrif Atodol ac yn dangos gostyngiad o £30,000 yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13. Fe wnaeth fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2013/14 gymryd i ystyriaeth y lleihad o £30,000, a gododd o ganlyniad i newidiadau i'r rhagolygon gynt mewn perthynas ag ymrwymiadau pensiwn.

Er i hyn gael ei adlewyrchu yn fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2013/14 mae'r Cynnig Cyllideb Atodol bresennol a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Chwefror 2013 yn ffurfioli'r newid hwn ac felly mae'n ofynnol arnaf i gyflwyno'r nodyn esboniadol hwn yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, rwy'n pwysleisio nad yw hyn yn gais am adnoddau ychwanegol nac am gynnydd yn y gofyniad ariannol uwchben fy amcangyfrif cyllideb a gyflwynwyd ym mis Hydref 2012.

Yn gywir



Peter Tyndall
Ombwdsmon

Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk